

Rhwydwaith Trawma De Cymru, sy'n gwasanaethu De a Gorllewin Cymru a De Powys

Cwestiynau cyffredin

Gwybodaeth a strwythur cyffredinol y rhwydwaith

Beth yw Trawma Mawr?

'Trawma mawr' yw anafiadau lluosog a difrifol a allai arwain at anabledd neu farwolaeth. Gallant gynnwys anafiadau difrifol i'r pen, anafiadau lluosog a achosir gan ddamweiniau traffig ar y ffyrdd, damweiniau diwydiannol, cwmpadau, anafiadau cyllyll a gynnu. Trawma mawr yw prif achos marwolaeth pobl o dan 45 oed ac mae'n achos sylweddol o anabledd neu iechyd gwael.

Beth yw Rhwydwaith Trawma Mawr?

Grŵp o ysbytai, gwasanaethau brys a gwasanaethau adsefydlu sy'n cydweithio i sicrhau bod claf yn cael y gofal gorau yn sgil anafiadau sy'n peryglu bywyd neu a allai newid bywyd am byth. O fewn y rhwydwaith ceir canolfan trawma mawr, unedau trawma, ysbytai brys lleol a chyfleusterau trawma gwledig, gyda chymorth yn cael ei ddarparu gan ysbytai eraill yn y rhanbarth. Mae tystiolaeth gref yn dangos bod rhwydwaith trawma mawr yn achub bywydau ac yn darparu canlyniadau gwell i gleifion, gan gynnwys adsefydlu mor agos â phosibl at y cartref.

Beth yw Canolfan Trawma Mawr, a ble caiff ei lleoli?

Mae'r Ganolfan Trawma Mawr ar gyfer oedolion a phlant wedi'i lleoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Gan fod trawma mawr yn anghyffredin ac yn gymhleth i'w reoli, mae'r gwasanaethau a ddarperir mewn canolfan trawma mawr yn hynod arbenigol ac yn cydweithio â/cefnogi ysbytai eraill yn y rhwydwaith.

Beth yw Uned Trawma?

Mae llawer o unedau trawma yn cefnogi'r ganolfan trawma mawr. Mae unedau trawma yn bwysig am eu bod yn darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau ar unwaith i gleifion nad ydynt, oherwydd eu hanafiadau, yn ddigon sefydlog i deithio i'r brif ganolfan drawma cyn eu trosglwyddo'n gyflym wedyn i'r ganolfan trawma mawr.

Beth yw Uned Trawma gyda Gwasanaethau Arbenigol?

Mae uned drawma, gyda gwasanaethau arbenigol, yn Ysbyty Treforys, Abertawe, yn rhoi cymorth arbenigol i'r ganolfan trawma mawr ac yn darparu llawdriniaeth arbenigol i gleifion heb anafiadau lluosog, ond sydd angen llawdriniaethau ar gyfer llosgiadau, llawdriniaeth blastig, asgwrn cefn a chardiothorasig. Hefyd, bydd yr uned drawma yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd, yn darparu llawdriniaethau asgwrn cefn.

Lle fydd yr Unedau Trawma eraill?

Yn ogystal â'r uned drawma yn Ysbyty Treforys, bydd pum uned drawma yn y llefydd canlynol:

- Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd
- Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd, (hyd nes y bydd Ysbyty Prifysgol y Grange ar waith yn llawn, tua mis Tachwedd 2020, pan ddaw'n Uned Drawma ddynodedig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)
- Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, ac Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin.

Beth yw Ysbyty Brys Lleol?

Mae ysbytai brys lleol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, ac Ysbyty Nevill Hall, y Fenni. Nid yw Ysbyty Brys Lleol yn derbyn cleifion trawma mawr fel rheol. Fodd bynnag, mae ganddo brosesau ar waith i sicrhau, os bydd hyn yn digwydd, bod cleifion yn cael eu rheoli a'u trosglwyddo'n briodol i'r Ganolfan Trawma Mawr neu'r Uned Drawma agosaf. Er hynny, bydd yr ysbytai hyn yn parhau i dderbyn achosion trawma cymedrol ac achosion trawma orthopedig o dro i dro. Bydd Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnal Adran Achosion Brys 24/7 gyda gwasanaethau aciwt cysylltiedig. Bydd yr Ysbyty Brys Lleol yn Ysbyty Nevill Hall yn cael ei gynnal hyd nes y bydd Ysbyty Prifysgol y Grange yn agor ym mis Tachwedd 2020 gobeithio, ac o hynny ymlaen, bydd Ysbyty Nevill Hall yn darparu gwasanaeth mân anafiadau.

Beth yw Cyfleuster Trawma Gwledig?

Mae cyfleusterau trawma gwledig yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth, ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, Hwlfordd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ysbytai hyn yn cynnal y gallu i asesu a thrin cleifion trawma mawr, o ystyried eu lleoliadau daearyddol cymharol unigryw. Ar hyn o bryd, mae'r naill ysbyty a'r llall yn derbyn ac yn rheoli achosion trawma mawr. Maen nhw'n cael cymorth gwell i wneud hynny bellach a llai o broblemau o ran atgyfeirio a throsglwyddo ymlaen.

Beth ydych chi'n ei olygu wrth 'De Cymru'?

Pan fyddwn ni'n dweud y bydd y rhwydwaith trawma mawr yn cwmpasu 'De Cymru', yr ydym yn sôn am ddaearyddiaeth eang Cymru wedi'i rhannu'n ddau ranbarth – gogledd a de. Bydd Rhwydwaith Trawma De Cymru yn cwmpasu rhanbarth y De i gyd, sy'n cynnwys siroedd: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gâr, Ceredigion, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Tor-faen a Bro Morgannwg. Bydd hefyd yn cwmpasu De Powys, sef y rhan i'r de o'r Drenewydd i raddau helaeth.

Pam sefydlu rhwydwaith trawma ar gyfer De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys?

Pam mae angen newid Gwasanaethau Trawma Mawr?

Mae astudiaethau diweddar ar draws y GIG yn Lloegr wedi dangos bod 20 y cant yn fwy o gleifion wedi goroesi trawma difrifol ers cyflwyno rhwydweithiau trawma mawr.

Ceir tystiolaeth mai'r ffordd orau o wneud hynny mewn rhai achosion yw drwy ganolbwyntio gwasanaethau arbenigol mewn llai o ganolfannau. Yma yng Nghymru, mae llawer o wasanaethau

arbenigol eisoes yn cael eu darparu o un ysbyty, ac mae hyn yn cynnwys llawdriniaeth ar yr ymennydd a llosgiadau a llawfeddygaeth blastig. Trawma mawr yw un o'r gwasanaethau arbenigol hyn.

Beth sy'n digwydd mewn mannau eraill o'r wlad?

Mae Gogledd Cymru yn rhan o Rwydwaith Trawma Mawr Gogledd-orllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Cymru ac mae ganddo fynediad i'r ganolfan trawma mawr yn Ysbyty Athrofaol Brenhinol Stoke, Gogledd Swydd Stafford. Mae cleifion Gogledd Powys hefyd yn elwa o fod yn rhan o Rwydwaith Trawma Mawr Gogledd-orllewin Canolbarth Lloegr drwy'r uned drawma yn Ysbyty Brenhinol Amwythig. Mae cleifion Powys hefyd yn defnyddio Rhwydwaith Trawma Birmingham, Black Country, Henffordd a Chaerwrangon.

Pwy fu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu Rhwydwaith Trawma De Cymru?

Mae meddygon, nyrsys, therapyddion a rheolwyr o bob rhan o fyrddau iechyd ardaloedd y De, y Gorllewin, a De Powys, ynghyd â staff ambiwlans, oll wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r trefniadau newydd ar gyfer rhwydwaith trawma mawr De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys. Hefyd, fe wnaethom ofyn i gleifion am eu profiad o'r system bresennol a sut gellid gwella hyn, a chafodd hyn ei ystyried wrth gynllunio'r gwasanaeth.

Faint o bobl sy'n debygol o ddioddef trawma mawr?

Mae dros filiwn o bobl yn mynychu adrannau achosion brys ledled Cymru mewn blwyddyn ac yn 2016, fe wnaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ateb tua 800 o alwadau brys bob dydd, ar hyd a lled y wlad. Y nifer disgwylidig o achosion trawma cymedrol a mawr y flwyddyn ar draws poblogaeth De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys yw 2,100, felly dim ond cyfran fechan o lwyth gwaith gofal brys yw'r maes trawma mawr.

Beth yw manteision Rhwydwaith Trawma De Cymru?

Mae tystiolaeth yn dangos y bydd gan gleifion ag anafiadau difrifol/lluosog well siawns o wella a chael ansawdd bywyd llawer gwell ar gyfer y dyfodol, os cânt eu trin o fewn rhwydwaith trawma mawr. Mae'r manteision yn cynnwys:

- Cyfraddau goroesi gwell
- Adferiad cyflymach i gleifion
- Llai o anabledd
- Cleifion sy'n gallu byw'n fwy annibynnol ar ôl iddynt wella
- Mwy o gleifion yn gallu dychwelyd i'r gwaith ac ailafael mewn gweithgareddau roedden nhw'n arfer ei wneud cyn cael anaf
- Gofal trawma mawr arbenigol ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Beth am fy Adran Achosion Brys Lleol?

Byddwch yn parhau i fynd i'ch Adran Achosion Brys leol os ydych chi'n ddifrifol wael neu os cewch chi anaf ac nad oes angen y gwasanaethau hynod arbenigol sydd ddim ond ar gael yn y ganolfan

trawma mawr. Mae'r trefniadau newydd ar gyfer trawma mawr ar gyfer y cleifion hynny sydd ag anafiadau lluosog a difrifol a allai arwain at anabledd neu farwolaeth. Gallant gynnwys anafiadau difrifol i'r pen, anafiadau lluosog a achosir gan ddamweiniau traffig ar y ffordd, damweiniau diwydiannol, cwmpadau, anafiadau cyllyll a gynnu.

Os ydych chi'n cyrraedd yr Adran Achosion Brys leol gyda thrawma mawr, bydd prosesau ar waith i sicrhau eich bod yn cael eich trosglwyddo'n gyflym i'r ganolfan trawma mawr neu i uned drawma.

Sut daith fydd gan y claf drwy'r gwasanaeth newydd?

Wrth gynllunio Rhwydwaith Trawma De Cymru, gofynnwyd i gleifion am eu profiad o'r system bresennol a sut gellid ei well. Cafodd hyn ei ystyried wrth gynllunio'r gwasanaeth. Mae'r diagram canlynol yn disgrifio siwrnai'r claf - o'r pwynt lle cafodd ei anafu hyd at ei ryddhau'n ôl gartref neu'n nes at y cartref.



Os ydych chi'n cael damwain fawr, a fydd yn rhaid imi deithio ymhellach i gael triniaeth?

Bydd y criw ambiwlans yn eich asesu chi, ac os ydych chi'n anafiadau'n ddifrifol a'u bod yn credu bod angen i chi fod mewn canolfan trawma mawr bydd ambiwlans neu hofrennydd yn mynd â chi i'r brif ganolfan drawma - gall hyn olygu mynd heibio ysbyty arall. Ond os ydych chi'n bywyd yn y fantol, bydd yr ambiwlans yn mynd â chi i'r uned drawma agosaf lle cewch eich trin, a byddant yn sefydlu eich cyflwr cyn eich trosglwyddo wedyn i'r ganolfan trawma mawr ar gyfer gofal arbenigol. Cyn gynted ag y byddwch yn ddigon ffit, cewch eich symud o'r ganolfan trawma mawr i ysbyty yn nes at eich cartref.

Os ydych chi'n gorfod teithio ymhellach, ydy'r parafeddygon wedi'u hyfforddi i ofalu amdana' i pan fydda i yn yr ambiwlans?

Mae pob parafeddyg wedi'i hyfforddi i ddarparu ymyriadau achub bywyd i gleifion sydd wedi dioddef achos posibl o drawma mawr. Hefyd, fel rhan o'r datblygiad hwn, mae parafeddygon wedi cael hyfforddiant ychwanegol i sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu datblygu i'r lefelau uchaf posibl. Ar ben hynny, mae desg drawma wedi'i staffio gan barafeddygon arbenigol 24 awr y dydd, sy'n helpu i nodi cleifion sydd angen eu cludo i ganolfan trawma mawr ar fyrder. Mae'r ddesg drawma wedi'i chydleoli gyda'r ddesg ambiwlans awyr.

A fydd rhaid i mi aros yn y brif ganolfan drawma er mwyn cael pob triniaeth, neu fydda i'n cael fy nhrosglwyddo yn nes at fy nghartref?

O dan y trefniadau newydd hyn, byddwch yn cael eich symud o'r ganolfan trawma mawr i ysbyty yn nes at eich cartref, cyn gynted ag y byddwch chi'n ddigon ffit.

Beth am wasanaethau adsefydlu?

Adsefydlu yw'r broses o helpu unigolyn sydd wedi dioddef anaf i adfer sgiliau a gollwyd a bod mor hunangynhaliol â phosib eto.

Mae gwasanaethau adsefydlu yn hanfodol i ofal cleifion yn dilyn trawma mawr. Mae ymarferwyr trawma mawr a chydgyssylltwyr adsefydlu yn rolau newydd yn y byrddau iechyd ac maent yn hanfodol i sicrhau gofal di-dor. Hefyd, maen nhw'n bwyntiau cyswllt allweddol i gleifion sy'n dychwelyd o'r ganolfan trawma mawr i uned drawma neu'r gymuned. Credwn fod adsefydlu mor agos â phosibl at y cartref yn elfen bwysig o rwydwaith trawma mawr effeithiol. Bydd gwasanaethau adsefydlu arbenigol yn dal ar gael o Ysbyty Rookwood Caerdydd ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Fel rhan o ddatblygiad parhaus y rhwydwaith, ac yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd gwelliannau pellach i wasanaethau adsefydlu lleol a chymunedol gan gynnwys rolau therapi craidd yn ogystal â rhai rolau arbenigol.

Oes angen buddsoddiad newydd ar y datblygiad hwn?

Oes. Rydym wedi buddsoddiad mewn rhwydwaith newydd o wasanaethau trawma ledled De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys er mwyn gwella rhagolygon cleifion ag anafiadau trawma mawr o oroesi, lleihau anabledd, a sicrhau adferiad cyflymach.

Trawma mawr a phandemig COVID-19

Pryd fydd y trefniadau newydd yn dechrau?

Roedd Rhwydwaith Trawma De Cymru i fod i gychwyn yn ystod gwanwyn 2020. Fodd bynnag, gohiriwyd y trefniadau newydd oherwydd COVID-19. Ar ôl ailasesu parodrwydd pob bwrdd iechyd a'r gwasanaethau ambiwlans i 'fynd yn fyw', cytunwyd ar ddyddiad byw diwygiedig o ddydd Llun 14 Medi 2020, yn amodol ar unrhyw gynnydd sylweddol pellach o COVID-19 ar draws y rhanbarth.

Pam mae'n bwysig cyflwyno'r rhwydwaith trawma cyn gynted â phosibl?

Cydnabyddir bod y system gofal iechyd yng Nghymru yn wynebu heriau ac ansicrwydd sylweddol mewn perthynas â phandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae nifer o resymau pam y dylai'r rhwydwaith trawma gychwyn cyn gynted â phosibl:

1. Mae trawma mawr yn cael ei ystyried yn wasanaeth hanfodol yn ystod pandemig COVID-19 ochr yn ochr â llawer o wasanaethau eraill. Mae hyn yn golygu y dylid parhau i gynnal gwasanaethau er mwyn gofalu am gleifion trawma mawr yn ystod y cyfnod hwn.
2. Mae achosion o drawma mawr wedi parhau gydol pandemig COVID-19 ac felly mae cyfle i wella gofal cleifion a anafwyd yn ddifrifol.
3. Mae arian sylweddol wedi'i fuddsoddi mewn adeiladau a staff. Oni bai bod y rhwydwaith yn cael ei sefydlu mewn da bryd, mae perygl na fydd y buddsoddiad hwn yn ychwanegu gwerth i ofal cleifion trawma mawr a'u canlyniadau.
4. Mae GIG Cymru yn barod ar gyfer achosion pellach o COVID-19, ac os bydd y rhwydwaith yn mynd yn fyw a bod rhagor o achosion yn digwydd, mae'r rhwydwaith wedi datblygu cynlluniau i sicrhau ei fod yn dal ar waith wrth sicrhau bod y rhai sydd angen y gofal mwyaf arbenigol yn gallu elwa arno mewn ffordd amserol.
5. Mae cefnogaeth gref gan feddygon, nyrsys a therapyddion ar draws y rhanbarth i sefydlu'r rhwydwaith.

Ydy'r strwythur a'r hyn a gyflawnir wedi newid oherwydd pandemig COVID-19?

Na, mae trefniant y rhwydwaith yn parhau'r un fath, yn fras. Fodd bynnag, efallai y bydd y dull o ddarparu gofal i unigolion yn newid. Yn ystod y camau cychwynol, bydd y rhan fwyaf o gleifion yn derbyn gofal wyneb yn wyneb - ond gall hyn newid i ofal rhithiol yn y camau diweddarach. Mae hyn yn cynnwys apwyntiadau cleifion allanol a mewnbwn gan arbenigwyr adsefydlu.

Hefyd, efallai y bydd cleifion yn sylwi ar fwy o weithdrefnau rheoli heintiau (fel defnydd o gyfarpar diogelu personol neu PPE gan staff a chleifion), ond nid yw hyn yn wahanol i gleifion di-drawma.

A fydd hi'n ddiogel i symud claf trawma mawr i'r Ganolfan Trawma Mawr yn ystod pandemig COVID-19?

Bydd - bydd y fantais o gael eich trin mewn canolfan arbenigol (fel canolfan trawma mawr) yn fwy na'r risg o ddal COVID-19. Bydd mesurau rheoli heintiau yn lleihau'r siawns o gael eich heintio. Cofiwch fod cleifion wedi parhau i gael eu trosglwyddo i ganolfannau arbenigol ar hyd a lled y rhanbarth yn ystod y pandemig.

A fydd yn ddiogel symud claf trawma mawr yn ôl i'w Fwrdd Iechyd agosaf unwaith y bydd y ganolfan trawma mawr wedi gorffen gofalu amdano?

Bydd - mae dychwelyd cleifion i'w Bwrdd Iechyd agosaf yn rhan bwysig o daith y claf a'r broses o wella. Bydd y fantais o ddychwelyd i gael gofal yn nes at eich cartref yn fwy na'r risg o ddal COVID-19. Bydd mesurau rheoli heintiau yn lleihau'r siawns o gael eich heintio. Cofiwch fod cleifion wedi parhau i gael eu trosglwyddo ar hyd a lled y rhanbarth gydol y pandemig.

Beth yw'r trefniadau ar gyfer perthnasau/ffrindiau sy'n ymweld â'r ganolfan trawma mawr neu uned drawma?

Mae'r ganolfan trawma mawr neu'r uned drawma yn rhoi gwybodaeth i berthnasau a ffrindiau am y cyfleusterau a'r cymorth sydd ar gael ym mhob ysbyty. Yn ystod pandemig COVID-19, gosodwyd cyfyngiadau ar allu ffrindiau a pherthnasau i ymweld â wardiau ac aros ar y safle. Fodd bynnag, mae gweithwyr allweddol yn gwneud eu gorau i roi diweddariadau i berthnasau a ffrindiau a hwyluso cyswllt rhithwir â chleifion lle bo hynny'n briodol. Efallai y gofynnir i berthnasau ffonio'r ganolfan neu'r uned drawma cyn ceisio ymweld â'r safle, er mwyn cadarnhau trefniadau lleol a allai newid ar fyr rybudd.